Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar:

# Kinsale School

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Mae’n ofynnol i ymweliadau monitro blynyddol Estyn ag ysgolion annibynnol ac ysgolion arbennig annibynnol yng Nghymru adrodd ar b’un a yw rheoliadau safonau cofrestru Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) ar gyfer ysgolion annibynnol yn cael eu bodloni, a, lle na chaiff y rhain eu bodloni, beth y mae angen iddynt ei wneud er mwyn cydymffurfio.

Mae mwy o wybodaeth ynghylch y rheoliadau ar gyfer yr ymweliad monitro hwn i’w gweld yn y dogfennau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Llawlyfr Gwybodaeth a Chofrestru Ysgolion Annibynnol,* Ebrill 2004; a
- Chylchlythyr y Swyddfa Gymreig 37/94: *Ysgolion annibynnol sy’n derbyn disgyblion ag anghenion addysgol arbennig*:
    - paragraffau 1-8: caniatáu/dileu cymeradwyaeth;
    - paragraff 42: newidiadau i gymeriad, rheolaeth neu ofalaeth yr ysgol; a
    - 37/94 paragraff 43: gwahaniaethau sylweddol o’r nifer a gymeradwywyd.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 01/04/2014**

## Cyd-destun

Mae gwasanaeth Kinsale School yn cynnig pecyn addysg a gofal preswyl integredig i ddisgyblion ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig neu anawsterau cysylltiedig, rhwng wyth a phedair ar bymtheg oed. Mae'n cynnig rhai lleoliadau dydd hefyd. Yn gyffredinol, mae gan ddisgyblion lefel uchel o angen ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol cysylltiedig.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn addysgu 12 o ddisgyblion o Flwyddyn 8 i ôl-16. Daw disgyblion o awdurdodau yng Nghymru yn bennaf, a daw ychydig o ddisgyblion o awdurdodau yn Lloegr. Mae gan bob disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) ac mae gan bron pob disgybl statws 'plentyn sy'n derbyn gofal'.

Mae'r ysgol wedi mynd trwy gyfnod o newid sylweddol er Mehefin 2012 o ran arweinyddiaeth a rheolaeth. Bu dau bennaeth gwasanaeth newydd er Mehefin 2012 a phennaeth newydd, sef y dirprwy bennaeth gynt, er Medi 2012. Penododd yr ysgol aelod staff newydd yn bennaeth dros dro yn Rhagfyr 2012. Ers hynny, mae wedi ymgymryd â swydd wag y dirprwy bennaeth. Er gwaethaf y newidiadau hyn, mae arweinyddiaeth yn nodwedd gref yn yr ysgol.

Mae'r newidiadau staffio hefyd yn cynnwys penodi therapydd galwedigaethol rhan-amser.

Mae'r ysgol wedi datblygu ardal chwarae fach fel ystafell ddosbarth awyr agored. Caiff y cyfleuster hwn ei ddefnyddio yn ystod amser egwyl ac amser cinio hefyd.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma gryfderau'r ysgol:**

- mae'r ysgol wedi mynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad monitro blynyddol blaenorol yn llawn;
- mae disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn unol â'u gallu;
- mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol iawn;
- mae addysgu yn rhagorol ac mae cynlluniau gwersi cynhwysfawr yn bodloni anghenion unigol disgyblion;
- mae disgyblion yn cael cyfleoedd da iawn i ddatblygu eu medrau cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh);
- mae disgyblion yn cael gofal, cymorth ac arweiniad rhagorol;
- mae gan arweinwyr ymrwymiad cryf i wella'r ysgol yn barhaus;
- mae arweinwyr yn gwybod beth yw cryfderau'r ysgol ac yn blaenoriaethu meysydd i'w gwella yn effeithiol; ac
- mae staff addysg a gofal yn cydweithio'n dda iawn fel tîm.

## Meysydd i'w datblygu

**Dyma feysydd yr ysgol i'w datblygu:**

- mae wedi cynyddu ystod y cyrsiau sydd wedi eu hachredu gan ASDAN i gynnwys lefel mynediad, ac mae wedi datblygu ei hymglymiad wrth Gynllun Gwobrau Amgylcheddol John Muir ymhellach er mwyn i ddisgyblion gael cyfle i ennill y wobr arian ac efydd. Mae'r gwobrau hyn yn gwella ymwybyddiaeth disgyblion o'r amgylchedd awyr agored lleol ac yn darparu lleoliadau profiad gwaith gwerthfawr i ddisgyblion yn y gymuned leol. Fodd bynnag, mae angen i'r ysgol ymestyn ystod yr achrediadau i fodloni anghenion cyfnewidiol ac amrywiol disgyblion. Mae wedi nodi'r angen hwn ac mae wrthi'n cynyddu ystod yr achrediadau allanol i ddisgyblion mwy galluog; ac

- mae'r ysgol yn casglu swm sylweddol o ddata asesu o ansawdd uchel ar gyfer pob disgybl. Mae staff yn datblygu rhagor o ffyrdd i ddadansoddi'r data hwn er mwyn gwella cynlluniau tymor hir a chanolig mewn meysydd pwnc unigol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu effeithiolrwydd y trefniadau hyn.

## Argymhellion

**A1** Darparu ystod briodol o gyrsiau achrededig i fodloni anghenion cyfnewidiol ac amrywiol disgyblion

**A2** Datblygu ymhellach ffyrdd i ddadansoddi data asesu er mwyn gwella cynllunio ar bob lefel

## Cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r nodyn ymweliad neu'r adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1: Datblygu ymhellach darpariaeth i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws yr ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Er mwyn mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn, adolygydd staff y ddarpariaeth bresennol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Fe wnaethant ddilyn rhaglen hyfforddiant ysgol-gyfan briodol a datblygu polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar gyfer llythrennedd a rhifedd.

O ganlyniad, mae staff yn nodi targedau llythrennedd a rhifedd penodol ar gyfer pob disgybl unigol yn effeithiol, sy'n cael eu hatgyfnerthu trwy gydol y diwrnod ysgol. Caiff y targedau hyn eu monitro'n rheolaidd, a'u hadolygu a'u harfarnu gan athrawon, tiwtoriaid a chynorthwywyr cymorth dysgu ar ddiwedd pob hanner tymor.

**Argymhelliad 2: Gwella'r offer yn yr ardal chwarae fach**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae staff a disgyblion wedi cydweithio â chwmni masnachol i wella'r ardal chwarae fach. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi datblygu ardal ddysgu awyr agored briodol ag adnoddau addas. Mae disgyblion yn defnyddio'r ardal hon yn effeithiol yn ystod gwersi ac egwyliau'r ysgol.

**Argymhelliad 3: Datblygu polisïau llythrennedd a rhifedd cynhwysfawr**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol wedi datblygu polisïau llythrennedd a rhifedd cynhwysfawr yn unol â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, ac wedi rhoi'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn ar waith yn effeithiol ar draws yr ysgol.

## Cydymffurfiad â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 4: Addasrwydd perchenogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 5: Adeiladau a llety preswyl ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 7: Y dull o drafod cwynion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

## Argymhellion ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestru'r ysgol hon, mae'n bosibl y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

- ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau'r arolygwyr o'r arolygiad monitro blynyddol hwn ddylanwadu ar ganfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Kinsale School |
| **Rhif yr ysgol** | 664/6004 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 27 a 28 Ionawr 2014 |
| **Perchennog** | New Options |
| **Staff** | 1 pennaeth gwasanaeth<br>1 pennaeth â statws athro cymwysedig (SAC)<br>1 dirprwy bennaeth â SAC<br>1 athro amser llawn â SAC<br>2 (0.8) athro â SAC<br>3 thiwtor amser llawn (astudiaethau galwedigaethol)<br>10 cynorthwyydd cymorth dysgu (CCDau)<br>1 seicolegydd clinigol ymgynghorol rhan-amser (0.6)<br>1 seicolegydd clinigol cynorthwyol amser llawn<br>1 therapydd iaith a lleferydd rhan amser (0.6)<br>1 therapydd galwedigaethol rhan amser (0.5)<br>Mae tîm ar wahân o staff gofal yn y cartref preswyl i blant. |
| **Nifer y disgyblion** | 12 disgybl |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth dydd a phreswyl 38 / 52 wythnos.<br>Mae'r cartref i blant wedi ei gofrestru ag AGGCC i letya 25 o blant a phobl ifanc (bechgyn a merched) rhwng 8 a 19 oed am leoliadau 38 neu 52 wythnos. Mae'r ysgol wedi ei chofrestru i dderbyn 30 o ddisgyblion. Mae hyn yn cynnwys disgyblion dydd.<br>Mae'r ysgol ar agor am 195 diwrnod, yn unol ag ysgolion Cyngor Sir y Fflint yn bennaf. Caiff gwyliau'r haf eu haddasu fel nad yw disgyblion yn cael seibiant rhy hir. |
| **Y math o anghenion addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Disgyblion rhwng 8 a 19 oed ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig neu anawsterau cysylltiedig, sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) ac a all fod yn blant sy'n derbyn gofal. |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | Mawrth 2012 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 18 a 19 Chwefror 2013 |
| **Arolygiad diwethaf AGGCC** | 24 a 25 Ebrill 2013 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| **Arolygydd Cofnodol** | Meinir Rees |
| **Arolygydd Tîm** | Ann Dackevych |